



Beth fuodd yn digwydd? Medi - Rhagfyr 2016 Gan aelodau Fforwm Ieuenctid y Fro



Neges gan Gadeirydd Fforwm Ieuenctid y Fro

Helo, Nikita 'dw i a fi yw cadeirydd newydd Fforwm Ieuenctid y Fro. Rwy'n 13 oed ac rwy'n mynd i Ysgol St Cyres. Helo, Brandon 'dw i a fi yw'r Is-gadeirydd newydd. Rwy'n 14 oed ac rwy'n mynd i Ysgol y Deri. Rydyn ni'n dau'n hynod hapus o fod wedi ein hethol gan yr aelodau a'n bod wedi cael y cyfle hwn. Rydyn ni wedi derbyn hyfforddiant i'n helpu yn ein swyddi. Rydyn ni'n gobeithio y gwnawn gyfiawnder â'r aelodau ac am iddyn nhw wybod ein bod ni yma i helpu!



Gwneud eich Marc 2016

Rhwng mis Medi a Hydref, cyflwynom ymgyrch Gwneud Eich Marc yn y Fro. Gwneud Eich Marc yw ymgyngoriad mwyaf ar gyfer ieuenctid yn y DU gan Senedd Ieuenctid y DU. Mae canlyniadau'r ymgyngoriad yn rhoi'r gallu i bobl ifanc roi gwybodaeth i Lywodraeth y DU am faterion y mae pobl ifanc yn eu hwynebu. Bu aelodau Fforwm Ieuenctid i Fro, grwpiau gweithredu ieuenctid lleol a chynghorau ysgol yn annog pobl ifanc i bleidleisio am eu prif fater. Dangosodd yr ymgyngoriad hwn beth oedd y mater pwysicaf gan bobl ifanc yn lleol. Cymerodd cyfanswm o 4136 o bobl ifanc yn y Fro ran yn yr ymgyngoriad, sef 30.69% a'r ganran uchaf a ddaeth i bleidleisio o bob Awdurdod Lleol yng Nghymru! Y tri phrif fater gan bobl ifanc y Fro yw: 1) Cwricwlwm i'n paratoi ar gyfer bywyd; 2) Pleidleisio yn 16 oed a 3) Trafnidiaeth. Gallwch weld manylion y canlyniadau yma. Fel Fforwm Ieuenctid y Fro, byddwn nawr yn canolbwyntio ar y prif fater ar gyfer pobl ifanc ac yn nodi hon fel un o'n blaenoriaethau pennaf.

Vale Youth Service @vysvale 7 Nov 2016
Congrats to the new #ValeYouthForum
chair & vice chair! @StCyresSchool
@YsgolYDeri

Rhifyn Make your Mark

nifer y
pleidleisiau

Pleidleisio'n 16 oed.	560
Cwricwlwm paratoi at fywyd.	804
Addysg Cymorth Cyntaf i Holl Bobl Ifanc	469
Iechyd Meddwl.	440
Trafnidiaeth	508
Stopio toriadau i'r GIG.	448
Delwedd Corff	171
Ariannwch eich Gwasanaethau Ieuenctid yn lle eu torri.	143
Codi Ymwybyddiaeth am Aflonyddu Rhywiol mewn ysgolion	164
Mynd i'r afael â hiliaeth neu anffafiaeth grefyddol, yn arbennig yn erbyn Mwslemiaid neu Iddewon.	429
Cyfanswm	4136

#AmserIeuenctid

Ar 01.10.16, aeth aelodau'r Fforwm i #AmserIeuenctid yn Ynys y Barri. Roedd yn arddangosiad gwych o dalent pobl ifanc y Fro gyda chynrychiolaeth gan bob grŵp ieuenctid gwahanol, o grŵp Dug Caeredin Ysgol Gyfun y Barri i grwpiau Cadet, ac wrth gwrs y perfformiadau anhygoel gan y clwb gymnasteg a'r grŵpawns. Er nad oedd yr haul yn tywynnu, bu ein haelodau'n hyrwyddo'r Fforwm vmlith v bobl ifanc a fu'n vmweld â'n stondin.



Maer Ieuenctid 2016-17

Yn ystod Wythnos Democratiaeth Leol, pleidleisiodd pobl ifanc ledled y Fro am eu Maer Ieuenctid nesaf. Yn ystod cyfarfod y Fforwm at 17.10.16, cyhoeddodd Arweinydd y Cyngor a Maer Bro Morgannwg yr etholwyd Daniel Marshall yn Faer Ieuenctid a Daley Chapman yn Ddirprwy Faer Ieuenctid. Pleidleisiodd cyfanswm o 3992 o bobl ifanc yn yr etholiad. Bydd y Maer Ieuenctid a'r Ddirprwy Faer Ieuenctid yn parhau i weithio'n agor â Fforwm Ieuenctid y Fro i hyrwyddo barn pobl ifanc ac i fod yn llais dros Gabinet Ieuenctid y Fro.



Am ragor o fanylion cysylltwch â valeyouthforum@hotmail.co.uk
Rhif elusen. 1082205



Yn ogystal â chadeirydd ac Is-gadeirydd newydd, bu i'r aelodau groesawu cadeirydd newydd i Ymddiriedolwyr y Fforwm. Hoffai aelodau groesawu Eleri Thomas i'w rôl newydd ac maent yn edrych ymlaen at gydweithio â hi. Hoffai aelodau hefyd estyn diolch mawr i Jane Hutt AC am ei gwaith caled a'i chyfraniad fel y cyn-gadeirydd. Rydym yn falch dros ben y bydd Jane Hutt AC yn parhau fel ymddiriedolwr.

Fforwm Ieuentid y Fro

Yn y tymor diwethaf, etholwyd dau gadeirydd newydd, Nikita a Brandon. Hefyd, gwelwyd ail etholiad Daniel fel ein maer ieuentid. Gweithredem ar gynllun newydd am lywodraeth ifanc Gymreag, a pharheurn i weithredu l sicrhau integreiddiad llyfn o'r newidiadau i'r system addysg yn ein Bro. Cychwynnom hefyd l gefnogi Gofalwyr ifanc, a rydym wedi cael gweithd gan y Llysgenhadion Hawliau.

Senedd Ieuentid y DU

Aeth Aelod Senedd Ieuentid y DU dros y Fro i Dŷ'r Cyffredin ar 11.11.16 i drafod canlyniadau ymgyrch Gwneud Eich Marc. Aeth dros 300 Aelod Senedd Ieuentid trwy'r DU i'r drafodaeth a gadeiriwyd gan Lefarydd Tŷ'r Cyffredin, John Burcow AS. Gwnaethant drafod y pum prif fater a phleidleisio dros flaenoriaeth genedlaethol Senedd Ieuentid y DU ar gyfer 2017. Roedd y bum prif drafodaeth yn cynnwys: Pleidleisio'n 16 oed; cwricwlwm i'n paratoi ar gyfer bywyd; mynd i'r afael â hiliaeth ac anffafrio crefyddol; toriadau i'r GIG a thrafnidiaeth. Yn dilyn y bleidlais, cadarnhawyd mai'r flaenoriaeth genedlaethol ar gyfer 2017 fyddai Pleidleisio'n 16 oed. Bu holl Aelodau Senedd Ieuentid y DU o Gymru mewn sesiwn hyfforddi gan Cymru Ifanc ar ddiwedd y tymor er mwyn cychwyn codi ymwybyddiaeth ac ymgyrchu dros y flaenoriaeth.



You Retweeted
Your Assembly @yourassembly · 10 Nov 2016
 Good luck to all Welsh MYPs attending @UKYP tomorrow with @ChildrenWales. You can watch on @BBCParliament.
 #MakeYourMark #UKYPHOC

Croeso!

Hoffai'r Fforwm groesawu aelodau newydd sydd wedi ymuno'n ddiweddar ac sy'n cynrychioli gwahanol ysgolion, clybiau ieuentid a sefydliadau ieuentid yn y Fro. Daeth aelodau newydd i sesiwn Cwrdd a Chyfarch gan aelodau presennol i ddsygu rhagor am y Fforwm a'r gwaith y mae aelodau'n ei wneud. Mae'r aelodau'n newydd yn awyddus iawn i allu gwneud newid cadarnhaol yn y gymuned ac maent yn ymroi'n llawn fel gwirfoddolwyr ifanc.

Vale Youth Service @vysvale · 17 Oct 2016
 Congratulations to our #MakeYourMark champions @UKYP & everyone else at #ValeYouthForum who helped collect ballots!

Senedd Ieuentid newydd dros Gymru

Roedd hi'n wych cymryd rhan mewn ymgyngoriad ar Senedd Ieuentid gan Gynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru. Trafododd aelodau rolau a chyfrifoldebau'r Senedd Ieuentid newydd a sut y dylid ei sefydlu er mwyn sicrhau cynrychioli pobl ifanc yn deg. Rydym hefyd yn hapus iawn bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo i sefydlu Senedd Ieuentid newydd ac rydym yn edrych ymlaen at fod yn rhan yn ei datblygiad.

Ymweliad i'r Senedd

Ar ddiwedd y tymor, aeth y cadeirydd a'r is-gadeirydd newydd ar daith o'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyfarfod Aelod Cynulliad Bro Morgannwg, Jane Hutt AM. Diolch i'r AC, rhannwyd canlyniadau Make Your Mark â gweinidogion Llywodraeth Cymru a ymatebodd gyda gwybodaeth ynghylch sut y maent yn mynd i'r afael â'r materion a gododd pobl ifanc.



Cwricwlwm i'n paratoi ar gyfer bywyd

Fel prif fater pobl ifanc yn lleol, bu aelodau grŵp gorchwyl y cwricwlwm yn ymchwilio'r diwygiad presennol ar y cwricwlwm yng Nghymru gan yr Athro Donaldson. Fel grŵp, rydym wedi anfon llythyr at Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Addysg, gwleidyddwyr a phobl sy'n gwneud penderfyniadau'n lleol i fynegi pryderon pobl ifanc ynghylch eu haddysg ac i ofyn am newyddion ynghylch datblygu'r cwricwlwm newydd yn ogystal â chyfle i ymwneud yn rhagor yn y mater. Mae aelodau'n edrych ymlaen at dderbyn ymateb ac ymwneud ag ysgolion arloesol.